YSGOL BRYNREFAIL

DIWRNOD TRWYNAU COCH BRYNREFAIL'S GOT TALENT

A'r neuadd dan ei sang fe ddaeth nifer o ymgeiswyr i ddangos eu doniau yn y gystadleuaeth i ddarganfod myfyriwr/wyr mwyaf talentog Ysgol Brynrefail. Wrth gwrs yr oedd yr holl elw yn mynd tuag at gronfa'r 'Diwrnod Trwynau Coch".

Trefnwyd yr oll gan yr is brif fachgen Ben Jones a oedd wrth ei fodd gyda chyfanswm o £820 gyfrannwyd tuag at Gronfa'r Trwynau coch o weithgareddau'r diwrnod.

Fe ddaeth tri ar ddeg o ymgeiswyr ymlaen yn unigolion ac yn grwpiau a'r enillwyr, ac fe benderfynwyd yr enillwyr ar y gymeradwyaeth uchaf, oedd Dafydd Long a William Morgan o flwyddyn 11.

Cafwyd gymeradwyaeth byddarol i Dafydd Long am ei 'beatbocsio' a William Morgan oedd yn dawnsio i'r rhythmau.